Summit SKILLS

Vega House
Opal Drive
Fox Milne
Milton Keynes
MK15 0DF

Ffôn: 01908 303960

Ebost: enquiries@summitskills.org.uk

www.summitskills.org.uk

Alliance
Sector Skills Councils

Y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer
Peirianneg Gwasanaethau Adeiladau

Summit SKILLS

Adolygiad Blynyddol 2009 – 2010



Rhageiriau

Does dim amheuaeth y bu'n flwyddyn anodd i'r economi ac er ei bod wedi cyflwyno heriau, bydd pethau wrth gwrs yn gwella; yr un peth sy'n gyffredin am ddirwasgiadau yw eu bod yn dod i ben. Mae llawer o fusnesau peirianneg gwasanaethau adeiladau yn gweld gwell cyfleoedd, yn enwedig ym maes technolegau amgylcheddol sy'n cynnal cynnydd parhaus o ran galw.

Roeddwn yn falch dros ben â'r clod haeddiannol iawn a dderbyniwyd gennym yn asesiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a arweiniodd at ein hail-drwyddedu llwyddiannus. Drwy'r broses ail-drwyddedu daeth yn glir bod yr agenda gwyrdd yn rhoi llwyfan cryf i Summitskills i sbarduno newid yn ein sector, a chadarnhaodd y weithrediaeth hyn drwy osod strategaeth newydd, gyffrous ac uchelgeisiol i'r sefydliad. Mae hwn yn gam pwysig i ni.

Bydd peirianneg gwasanaethau adeiladau yn chwarae rhan allweddol wrth i'r DU symud i economi carbon isel oherwydd mae technolegau amgylcheddol yn estyniad o alwedigaethau a sgiliau presennol y sector, felly mae'n hollbwysig bod ein diwydiannau ar y blaen o ran datblygu hyfforddiant yn y meysydd datblygol hyn.

Mae cyhoeddi ein Hacademi Sgiliau Genedlaethol newydd ar gyfer Technolegau Amgylcheddol yn tanlinellu'r rhan hollbwysig y bydd ein diwydiannau yn ei chwarae wrth osod isadeiledd carbon isel y DU. Credaf y bydd yn darparu hwb gwerthfawr i fusnesau sy'n ceisio mynediad i'r sgiliau a'r hyfforddiant iawn wrth i ni weithio tuag at dwf economaidd. Yn syml, nid oes economi carbon isel heb sgiliau ein sector.

Wrth i ni edrych ymlaen at gyfnod gwell, rwyf yn bersonol ymrwymedig i barhau i godi proffil peirianneg gwasanaethau adeiladau yn barhaus a lobïo'n gyhoeddus ar faterion allweddol sy'n effeithio ar ein sector. Rwy'n falch i groesawu aelodau newydd y bwrdd sy'n ymuno â grŵp cryf ac ymrwymedig o unigolion sy'n gweithio'n agos â chyflogwyr, cymdeithasau masnach allweddol a'r Llywodraeth i sicrhau bod ein hamcanion strategol yn aros wrth wraidd llwyddiant y sector.

Ian Livsey
Cadeirydd y Bwrdd, SummitSkills

Yn ddi-os ein cyflawniad mwyaf arwyddocaol eleni fu canlyniad llwyddiannus y broses ail-drwyddedu, a fu'n canmol ein cryfder i sbarduno cynnydd mewn sgiliau technoleg amgylcheddol yn y symudiad tuag at economi carbon isel.

Mae'r cynnydd yn y galw yn y meysydd hyn yn golygu ei fod yn bwysicach nac erioed ein bod yn cadw ar y blaen o ran datblygiadau mewn sgiliau a hyfforddiant. Mae cyfleoedd mawr iawn am dwf yn y dyfodol ac rwy'n falch bod SummitSkills yn chwarae ei rôl lawn wrth ddiwygio cymwysterau galwedigaethol i wella sut maent yn cwrdd â gofynion y sector.

Mae'r Academi Sgiliau Genedlaethol newydd ar gyfer Technolegau Amgylcheddol yn gam mawr ymlaen i beirianneg gwasanaethau adeiladau. Credaf fod gennym y rhagwelediad a'r weledigaeth i symud y sefydliad ymlaen, ac y byddwn yn parhau fel y llais awdurdodol wrth ddiffinio anghenion sgiliau'r sector yn y dyfodol.

Rydym yn gosod gwerth mawr ar ymrwymiad a chyfraniad y bobl sy'n gweithio i SummitSkills ac rwy' wrth fy modd fod y tîm wedi cael ei anrhydeddu â dyfarniad Aur Buddsoddwyr mewn Pobl. Mae'r cyflawniad gwerthfawr hwn yn adlewyrchu ymdrechion pawb sy'n gweithio mor galed tuag at ein llwyddiant. Rwy'n falch ein bod wedi cyrraedd y safon aur a hoffwn longyfarch pawb yn bersonol a wnaeth hi'n bosib cyrraedd cyflawniad mor haeddiannol – da iawn!

Fel y nodir ar dudalen naw, rydym yn ffarwelio â phum aelod o'n bwrdd sydd wedi gwasanaethu gyda ni am gyfnod hir: Stuart, Diane, John, Tom a David, sydd wedi darparu blynyddoedd o wasanaeth rhagorol. Maent wedi bod yn allweddol i ddatblygiad ein sefydliad ac rydym yn ddiolchgar dros ben am yr ymrwymiad dwfn a gwirioneddol y maent wedi'i ddangos. Rwy'n siwr y bydd ein perthynas agos yn parhau i ffynnu drwy ein gwaith ar draws y sector a hoffwn gynnig diolch arbennig iddynt am bopeth y maent wedi'i wneud dros SummitSkills.

Mae hefyd yn bleser o'r mwyaf croesawu pedwar aelod newydd o'r bwrdd: John, Patrick, Richard a George, y maent oll yn dod â chyfoeth o wybodaeth am y sector ac arbenigedd i'w rolau. Maent yn ategu tîm cryf o unigolion ymrwymedig ac edrychwn ymlaen at berthynas waith hir a llwyddiannus.

Keith Marshall
Prif Weithredwr, SummitSkills

Y ffordd ymlaen

Ail-drwyddedu
Derbyniodd SummitSkills ganmoliaeth yn asesiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) a arweiniodd at y cyhoeddiad ym mis Gorffennaf ein bod wedi'n hail-drwyddedu yn llwyddiannus.

Dangosodd yr asesiad NAO o SummitSkills ein bod wedi gwneud cynnydd da mewn nifer o feysydd allweddol yn cynnwys ymgysylltu cyflogwyr, gweithio mewn partneriaeth, a phresenoldeb gweladwy a gweithredol yn rhanbarthau Lloegr a'r Gwledydd Datganoledig. Mae'n adrodd "…mae'r CSS wedi'i arwain gan gyflogwyr, mae ganddo hyder a chefnogaeth cyflogwyr yn ei sector, ac mae'n sefydliad sy'n effeithiol yn strategol ac yn weithredol."

Dywedodd Keith Marshall OBE, prif weithredwr SummitSkills: "Rydym wrth ein bodd derbyn cydnabyddiaeth annibynnol am y gwaith yr ydym wedi bod yn ei wneud i gynyddu sylfaen sgiliau ein sector. Ers ein ffurfio yn 2003 rydym wedi bod yn gweithio'n agos â chyflogwyr, cymdeithasau masnach a rhanddeiliaid eraill i roi rhaglenni a systemau yn eu lle sy'n werthfawr i gyflogwyr ar draws sbectrwm eang y diwydiannau yr ydym yn eu cwmpasu.

"Gan edrych tua'r dyfodol, gyda'r gymeradwyaeth hon gan y Llywodraeth a'r UKCES, byddwn yn parhau i weithio gyda a gwrando ar gyflogwyr i ddeall eu heriau busnes ac anghenion sgiliau newidiol a, thrwy'r ymgysylltu a'r ymchwil hwn, yn parhau i fod yn llais awdurdodol y sector wrth ddiffinio anghenion sgiliau a blaenoriaethau'r dyfodol."

Dywedodd Arglwydd Mandelson, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau ar yr adeg honno: "Gall cyflogwyr fod yn hyderus y bydd y pedwar cyngor sgiliau sector a ail-drwyddedwyd heddiw, yn dilyn asesiadau caled, yn parhau i ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf ar eu cyfer."

Cynhaliwyd yr asesiad ail-drwyddedu ar ran Comisiwn Cyflogaeth a Sgiliau'r DU (UKCES) fel rhan o'r broses y mae gofyn i bob un o'r 25 CSS ymgymryd â hi.

Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Technolegau Amgylcheddol
Bydd cyflogwyr yn y sector peirianneg gwasanaethau adeiladau yn elwa o academi sgiliau genedlaethol newydd fydd yn cydlynu hyfforddiant sgiliau mewn dylunio, gosod a chynnal a chadw technolegau amgylcheddol.

Cyhoeddodd Arglwydd Mandelson gymeradwyaeth ar gyfer y cais, a arweiniwyd gan SummitSkills, ar ran cyflogwyr yn y sector. Bydd yr Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Technolegau Amgylcheddol yn chwarae rôl allweddol wrth drawsnewid y gallu i fusnesau yn y sector gyrchu'r hyfforddiant a'r sgiliau y bydd eu hangen arnynt i osod technolegau adnewyddadwy ac amgylcheddol yn y DU.

Daeth y cyhoeddiad hwn ym mis Mawrth ar yr un diwrnod yr amlygodd Comisiwn Cyflogaeth a Sgiliau y DU, yn ei Archwiliad Sgiliau Strategol Cenedlaethol cyntaf, y rôl hollbwysig y bydd y sector peirianneg gwasanaethau adeiladau yn ei chwarae wrth osod isadeiledd carbon isel y DU a'r angen i'r sector newid a gwella ei sgiliau i gwrdd â'r her hon.

Dywedodd Keith Marshall: "Mae creu Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Technolegau Amgylcheddol yn gam hollbwysig ymlaen i'r sector. Fel y noda'r Archwiliad Sgiliau Strategol Cenedlaethol, mae swyddi a chyflogaeth yn y sector yn y dyfodol yn dibynnu ar allu busnesau a chyflogwyr i ddatblygu'r sgiliau i ymdopi â'r dasg o osod y technolegau amgylcheddol fydd yn gyffredin wrth i'r DU gwrdd â'i hymrwymiadau i'r agenda carbon isel.

"Bydd yr Academi Sgiliau Genedlaethol yn chwarae rôl allweddol wrth sicrhau bod y gallu sgiliau hwn yn cael ei ddatblygu ac y gall peirianneg gwasanaethau adeiladau ddod yn fwy rhagweithiol wrth hybu'r agenda gwyrdd i ddefnyddwyr a gweithredu fel arloeswr i sgiliau gwyrdd."

Adolygu'r Cytundeb Sgiliau Sector
Yn dilyn cyhoeddi'r Cytundeb Sgiliau Sector (CSS) ym mis Ebrill 2008, bu SummitSkills yn gweithio gyda chyflogwyr a phartneriaid i gyflwyno cynlluniau gweithredu ar draws y DU. Mae'r gwaith hwn wedi symud y sector i sefyllfa gryfach i dyfu, nid yn unig o ran maint ond o ran cynhyrchedd, yn ogystal ag er mwyn denu'r gweithlu medrus gorau.

Prif ffocws y CSS o'i lansiad hyd yn hyn fu cyflwyno a darparu'r hyn y mae cyflogwyr y sector yn ei ddymuno. Mae hyn yn cael ei gyflawni drwy grwpiau cyflwyno CSS rhanbarthol a lleol sy'n atebol ac yn gyfrifol am sicrhau cyflwyno blaenoriaethau'r CSS ym mhob rhanbarth neu wlad.

Yn ogystal, mae'r grwpiau ymgynghorol strategol hefyd wedi cefnogi cyflwyno cynlluniau gweithredu'r CSS o safbwynt diwydiant neu draws-ddiwydiant.

Mae dwy flynedd gyntaf y CSS wedi gweld taith heriol o ran cyflwyno'r datrysiadau uchelgeisiol a mentrus a ddatblygwyd.

Mae gweithgareddau'r CSS bellach wedi dod yn rhan o gynllun busnes a chynlluniau gweithredu SummitSkills, i gyflwyno'r blaenoriaethau a'r gweithredoedd a nodwyd gennym yn 2008.

Mae'r gwaith yn dal i fynd rhagddo. Nid yw'r CSS yn gorffen yma – byddwn yn parhau i'w gyflwyno er mwyn gweithredu'r cynllun llawn i mewn i'w flwyddyn olaf.

Ymgysylltu cyflogwyr

"Mae'n bwysig ein bod yn cymryd rhan oherwydd dylai cyflogwyr fwydo yn ôl i SummitSkills ynghylch eu hanghenion er mwyn i'r strategaethau iawn gael eu datblygu. Rydym yn cyfrannu i sicrhau bod ein hanghenion yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses cynllunio sgiliau."

Alison Ashworth-Brown, Pennaeth yr Academi Beirianneg, N.G. Bailey, Leeds.

Ymweliad ysgolion Swydd Efrog a Humber

Gweithiodd Grŵp Cyflwyno Rhanbarthol Swydd Efrog a Humber SummitSkills gyda ConstructionSkills i drefnu ymweliad ysgolion cysylltiedig â gwaith arbennig a gynhaliwyd gan y cyflogwr mawr N.G. Bailey.

Rhoddwyd cipolwg bywyd-go-iawn i grŵp o fyfyrwyr i mewn i weithio mewn peirianneg gwasanaethau adeiladau gan y prentis Christopher Hickinbottom, cyn cael y cyfle i fynd i'r afael â chyfres o dasgau trydanol a phlymo ymarferol a hwyluswyd gan N G Bailey.

Daeth yr ymweliad i ben gyda thaith o gwmpas safle'r ysbyty newydd sy'n cael ei adeiladu fel rhan o Gyd-fenter Pontefract a Pinderfield.

Roedd yr adborth gan y bobl ifanc yn bositif iawn a dywedodd lawer ohonynt fod y profiad wedi rhoi gwell gwybodaeth o'r diwydiant iddynt ac ystod o yrfaoedd yn ein sector.

Grŵp cyflwyno Dwyrain Lloegr

Gwahoddwyd Grŵp Cyflwyno Dwyrain Lloegr i'r Sefydliad Ymchwil Prydeinig (BRE) yn Watford i gynnig cyngor ar ddatblygiadau arfaethedig ar gyfer technolegau meicrogynhyrchu newydd yn y rhanbarth.

Mae'r grŵp, o dan arweinyddiaeth y cadeirydd Mike Malone o Energy Solutions Associates, yn darparu arweiniad yn Nwyrain Lloegr i sicrhau mai anghenion cyflogwyr y sector sy'n parhau fel y prif sbardun ar gyfer sgiliau a datblygiad.

Ffocws yr ymweliad â BRE oedd cyfnewid syniadau ar gynaladwyedd a meicrogynhyrchu, sy'n rhan hanfodol o rôl y BRE i gefnogi busnesau i ddatblygu technolegau carbon isel ar gyfer yr amgylchedd adeiledig.

Dywedodd Mike: "Mae Grŵp Cyflwyno Dwyrain Lloegr yn chwarae rôl allweddol i sicrhau y gallwn ddatblygu'r gweithlu amrywiol a chymwys sydd ei angen ar gyfer y dyfodol. O dan arweiniad cyflogwyr, mae'n canolbwyntio ar gynghori a llunio esblygiad y sgiliau ar gyfer peirianneg gwasanaethau adeiladau."

Prosiect Trydanol Llundain

Mae SummitSkills yn rheoli menter hyfforddiant arbennig, sy'n agored i bob busnes contractio trydanol yn ardal Llundain, i helpu cwmnïau trydanol lleol elwa o gyfleoedd posib yn codi o Gemau Olympaidd 2012 a thu hwnt.

Mae Prosiect Trydanol Llundain yn cynnwys rhaglen cyn-gyflogaeth i ymgeiswyr di-waith sy'n oedolion sydd wedi cwblhau Tystysgrif Dechnegol Lefel 3 seiliedig ar theori (neu sydd ar fin gwneud hynny) i'w helpu i gynyddu i statws cwbl fedrus, NVQ Lefel 3.

Wedi'i gefnogi gan yr Awdurdod Cyflwyno Olympaidd, y Gymdeithas Contractwyr Trydanol, a'i ariannu gan Asiantaeth Datblygu Llundain, mae'r prosiect eisoes wedi cefnogi dros 100 o ymgeiswyr gyda rhai bellach yn ymgymryd ag NVQau. Mae gan chwe pherson leoliadau swyddi yn barod – dau gyda Notting Hill Housing, un gyda'r cwmni rheoli cyfleusterau MITIE a'r lleill fel cynorthwywyr trydanwyr drwy asiantaethau.

Cymdeithasau hyfforddiant a arweinir gan gyflogwyr

Mae SummitSkills yng Ngogledd Orllewin Lloegr yn cefnogi cyflogwyr lleol drwy sefydlu cymdeithasau hyfforddiant grŵp a arweinir gan gyflogwyr mewn prosiect a sefydlwyd i alluogi busnesau lleol i gyfrannu at gwrdd â'u hanghenion hyfforddiant yn ystod heriau'r hinsawdd economaidd bresennol.

Rydym yn gweithio ar y prosiect mewn partneriaeth gyda ConstructionSkills, ac yn helpu cyflogwyr na allant ymrwymo i brentis llawn amser barhau i gymryd rhan mewn hyfforddiant, gan fwyafu eu cynhyrchedd drwy gynnal datblygu sgiliau yn y gweithlu.

Llyfrynnau astudiaethau achos

I ddangos i fusnesau sut mae buddsoddi mewn hyfforddiant yn gwneud synnwyr busnes da iawn, mae SummitSkills yn cynhyrchu cyfres o lyfrynnau hyrwyddo yn cynnwys ystod o gyflogwyr o ar draws peirianneg gwasanaethau adeiladau cyfan. Maent yn disgrifio'r ffyrdd mae hyfforddiant yn talu iddynt hwy a sut mae datblygu staff yn fuddsoddiad hanfodol ar gyfer busnes cynaliadwy.

Mae'r set gyntaf o astudiaethau achos wedi'u cyhoeddi yn Lloegr, ar gyfer y Gogledd Ddwyrain a'r De Ddwyrain, ac yn cael ei dosbarthu i gyflogwyr lleol gan y rheolwyr gweithrediadau rhanbarthol.

Maent wedi cael derbyniad da ac mae mwy o gyhoeddiadau wedi'u cynllunio ar gyfer holl ranbarthau Lloegr yn ogystal â Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru.



Cynnig arbenigedd, diogelu safonau

"Mae hyfforddiant o safon, wedi'i gefnogi gan gymwysterau a gydnabyddir gan y diwydiant, wedi rhoi'r cyfle i ni ehangu i mewn i ynni cynaliadwy"

Mike Rogers, Rogers Restoration Electrical, Gwlad yr Haf.

Y DU yn Trosglwyddo i Garbon Isel
Mae peirianneg gwasanaethau adeiladau yn paratoi i chwarae rôl allweddol wrth i Bapur Gwyn y Llywodraeth gyhoeddi cynlluniau i fynd â'r DU i economi carbon isel, gan anelu at dorri allyriadau o 18% ar lefelau 2008 erbyn 2020, sy'n cyfateb i leihad o draean ar lefelau 1990.

Bydd peirianneg gwasanaethau adeiladau yn chwarae rôl hollbwysig wrth gyflwyno strategaethau'r rhanbarthau a'r gwledydd ar gyfer effeithlonrwydd ynni a lleihau carbon, sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd gan asiantaethau datblygu lleol a gweinyddiaethau datganoledig. Mae SummitSkills yn annog cyflogwyr yn y sector i uwchsgilio mewn technolegau amgylcheddol gan y bydd yn cyflwyno cyfleoedd busnes sylweddol wrth i'r DU adfer ar ôl y dirwasgiad. Mae technolegau amgylcheddol ac adnewyddadwy yn estyniad o alwedigaethau a sgiliau presennol ein sector, ac mae'n hanfodol bod ein diwydiannau ar y blaen o ran datblygiadau hyfforddiant yn y meysydd twf hyn.

Dod o hyd i hyfforddwyr ffug
Mewn ymgais gadarn i atal hyfforddwyr ffug rhag targedu pobl sy'n chwilio am waith yn y sector, mae SummitSkills wedi gweithio'n agos gyda'r Gymdeithas Contractwyr Plymo a Gwresogi a Ffederasiwn Cyflogwyr Plymo yr Alban a Gogledd Iwerddon i hybu cydnabyddiaeth o S/NVQ Lefel 2 neu 3 fel y gofyniad isafswm ar gyfer mynediad i gyrsiau byr.

Drwy gydweithio, anelwn at sicrhau fod pob unigolyn sy'n derbyn hyfforddiant plymo yn gweithio tuag at ennill cymwysterau a gydnabyddir gan y diwydiant. Rydym wedi cydlynu cyfres o ddatganiadau i'r wasg genedlaethol yn amlinellu'r prif gymwysterau sydd ar gael mewn peirianneg gwasanaethau adeiladau. Bydd hyn yn helpu unigolion a mudiadau i nodi lefelau hyfforddiant priodol, a chwalu honiadau rhai canolfannau hyfforddiant diegwyddor sy'n cynnig cyrsiau tymor byr drud nad ydynt yn ddigonol i hyfforddeion fod yn briodol gymwys.

Dyfodol carbon isel i Gymru
Bydd ardaloedd strategol Blaenau'r Cymoedd, Cymoedd y Gorllewin, Abertawe, Arfordir Gogledd Cymru a Môn a Menai yn derbyn oddeutu gwerth £350 miliwn o gyllid fel rhan o'r rhaglen fuddsoddi perfformiad ynni strategol sy'n dechrau yn 2010. Bydd y buddsoddiad yn cael ei anelu at Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn yr ardaloedd adfywio strategol hyn.

Mae SummitSkills wedi darparu cyngor allweddol ar y gofynion sgiliau a hyfforddiant i'r sector, sy'n allweddol i'r prosiect. Gallai cyflwyno tariffau bwydo i mewn o Ebrill 2010, datganoli'r rheoliadau adeiladu yn 2011 a thargedau sero carbon ar gyfer adeiladau newydd gynnig y cyfle i fusnesau Cymreig y sector ddylunio, gosod a chynnal a chadw technolegau adnewyddadwy ac amgylcheddol.

Adroddiad effaith y dirwasgiad
Mae SummitSkills wedi cyhoeddi ymchwil sy'n amlygu effeithiau posib y dirwasgiad ar y gweithlu peirianneg gwasanaethau adeiladau. Mae ein hadroddiad – *Potential Impact of the Recession on the Building Services Engineering Sector* – yn archwilio'r effaith bosib y gallai'r dirywiad economaidd ei chael ar lwythi gwaith ein sector.

Roedd ffigurau calonogol ar gyfer recriwtio graddedigion. O'r ymgynghorwyr peirianneg gwasanaethau adeiladau a gymerodd ran yn ein hymchwil, roedd mwy na dau draean wedi cynyddu niferoedd eu gweithlu ac yn disgwyl ehangu pellach hyd at 2015. Ar yr ochr negyddol, gallai fod cynifer â 154,000 o swyddi mewn perygl yn y diwydiant contractio os bydd effaith lawn y dirwasgiad yn taro. Mae'r rhagamcanion hyn yn cyfateb i ffigurau diweddar y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol sy'n dangos bod diwydiant adeiladu y DU wedi dioddef mwy na 45,000 o achosion o golli gwaith yn ystod chwarter olaf 2008.

Bu SummitSkills yn gweithio ar nifer o gamau. Mae'r rhain yn cynnwys adleoli a chynnal hyfforddiant prentisiaid di-waith, cefnogi cyflogwyr i amrywiaethu hyfforddiant gweithwyr presennol i mewn i feysydd datblygu newydd fel technolegau adnewyddadwy a chefnogi addysg a hyfforddiant newydd ddyfodiaid i helpu i baratoi'r sector wrth i ni ddod allan o'r dirwasgiad.

Dadansoddiad cost a budd prentisiaethau
Mae'r adroddiad *Potential Impact of the Recession on the Building Services Engineering Sector* yn amcangyfrif y gallai hyd at 10% (mewn tai cymdeithasol) a 55% (mewn tai preifat) o waith gael ei ohirio neu ei ganslo o ganlyniad i'r dirwasgiad, a allai esgor ar golli swyddi ar raddfa sylweddol.

Gyda mwyafrif yr ymgynghorwyr gafodd gyfweliad yn disgwyl i'r dirwasgiad presennol bara tan ddiwedd 2010, mae SummitSkills yn obeithiol y bydd ymchwil newydd i mewn i fanteision ariannol cyflogi prentisiaid yn cynnig ateb a allai helpu busnesau ar y ffordd i adferiad.

Cafodd ein hadroddiad Apprentice Cost Benefit Analysis y gall cyflogi prentisiaid arbed hyd at 15% mewn costau llafur i gwmnïau ar brosiectau graddfa fawr. Cyfrifwyd yr holl arbedion drwy ddefnyddio ffioedd a grantiau colegau Lloegr.

Ardystio Prentisiaethau
Dyfarnodd SummitSkills gyfanswm o 10,370 o dystysgrifau cwblhau prentisiaethau yn ystod y flwyddyn 2009-10 i Loegr, yr Alban a Chymru, i fyny 2.5% ar y flwyddyn flaenorol. Mae'r rhain yn ganlyniadau calonogol, yn enwedig gan iddynt gael eu cyflawni yn ystod cyfnod o ddirwasgiad. Rydym yn falch bod y sector wedi perfformio cystal yn ystod cyfnod economaidd mor heriol.

Gwella ansawdd a chyflwyniad

"Mae defnyddio prentis ochr yn ochr â chrefftwr cwbl fedrus yn golygu nid yn unig bod y gwaith yn cael ei gwblhau yn ddiogel ac yn gymwys, ond mae hefyd yn golygu bod y prentis yn dysgu gan fentor medrus."

Andy Crown, AC Electrical Services, Aylesbury.

FfCCh

Mae'r Fframwaith Credydau a Chymwysterau (FfCCh) yn rhan o ddiwygiad sylweddol y Llywodraeth o gymwysterau galwedigaethol yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a Chymru. Mae wedi'i ddylunio i symleiddio'r system gymwysterau, gan gyflwyno newid cynhwysfawr fydd o fudd i'r dysgwr, cyflogwyr a mudiadau cysylltiedig. Bydd y FfCCh yn galluogi pobl i ennill cymwysterau yn ôl eu pwysau, gan gynnig mwy o ddewis a llwybrau mwy hyblyg.



Mae SummitSkills yn ystyried y FFCCh yn gyfrwng i godi lefelau cymhwysedd mewn peirianneg gwasanaethau adeiladau drwy gyflwyno y gellir ei addasu, gyda mwy o gysondeb ar draws cymwysterau galwedigaethol a rhaglenni prentisiaethau.

Bydd y FfCCh yn disodli'r cymwysterau galwedigaethol blaenorol (yn cynnwys NVQau) yn raddol a achredwyd ar y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (FfCC). Tan ddiwedd 2010, byddant yn rhedeg ochr yn ochr â'i gilydd tan i'r cymwysterau diwygiedig gael ei blaenoriaethu a'u datblygu. Rhagwelir y bydd yr holl gymwysterau galwedigaethol achrededig ar y FFCCh o ddechrau 2011 pan fydd y FfCC yn cau.

I helpu blaenoriaethu datblygiadau cymwysterau ar gyfer ein sector, mae SummitSkills wedi cyflwyno ei Strategaeth Cymwysterau'r Sector (SCS) i sicrhau bod cymwysterau ein sector yn addas at y diben. Mewn ymgynghoriad â chyflogwyr a phartneriaid allweddol eraill, rydym wedi adolygu a diweddaru'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (SGC) ar gyfer peirianneg gwasanaethau adeiladau. O hyn, roeddem yn gallu diwygio'r egwyddorion dylunio ar gyfer datblygu cymwysterau seiliedig ar gymhwysedd i gefnogi anghenion sgiliau'r sector a nodwyd yn ein SCS. Yn yr Alban, mae Fframwaith Credydau a Chymwysterau'r Alban yn cael ei sefydlu ac mae wedi'i ddylunio i weithredu ar yr un egwyddorion â'r FfCCh.

Diwygio Cymwysterau Galwedigaethol

Bu SummitSkills yn gweithio'n agos â'r mudiadau dyfarnu City & Guilds ac EAL i ddatblygu cymwysterau newydd i'n sector yn unol â'r FFCCh fel rhan o'r diwygiad o gymwysterau galwedigaethol yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a Chymru.

Bydd y cymwysterau newydd yn cydymffurfio ag arferion gwaith y diwydiant, technolegau a deddfwriaeth, yn ogystal â'r gofynion rheoleiddio a ddatblygwyd ar gyfer y FfCCh, fel eu bod yn parhau i ddarparu gweithlu cymwys a medrus i'r sector. Mae'r cymwysterau yn seiliedig ar yr hyn sydd ei angen ar gyflogwyr a'r hyn y gall dysgwyr ei gyrchu'n hawdd tra'n cynnwys rhannau gorau'r cymwysterau galwedigaethol presennol.

Cynllun Ardystio Meicrogynhyrchu

Mae grŵp ymgynghorol arbennig, wedi'i arwain gan SummitSkills, wedi'i sefydlu er mwyn cynnig arweiniad ar y gofynion cymhwysedd isafswm ar gyfer dylunio a gosod systemau meicrogynhyrchu.

Mae'r Cynllun Ardystio Meicrogynhyrchu Annibynnol (CAM) yn gwerthuso cynnyrch a gosodwyr meicrogynhyrchu yn erbyn meini prawf cadarn, yn unol â safonau cyson, i ddarparu gwell diogelwch i ddefnyddwyr a helpu lleihau ôl-troed carbon y DU.

Mae SummitSkills yn gweithio i sicrhau bod safonau cymhwysedd gosodwyr ar gyfer y cynllun yn seiliedig ar y SGC ar gyfer technolegau amgylcheddol a'r FfCCh newydd ar gyfer y sector.

CAM yw'r unig gynllun ardystio i gwmpasu'r holl gynnyrch a gwasanaethau meicrogynhyrchu, ac mae wedi'i gefnogi gan yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd (DECC), y diwydiant a grwpiau anllywodraethol. Cafwyd lleihad sylweddol mewn cost i osodwyr ymuno â'r cynllun ers i DECC gyhoeddi cynnydd yn nifer y cyrff ardystio.

Gogledd Iwerddon – Sgiliau Hanfodol

Anrhydeddwyd y bobl gyntaf yn ein sector i ennill cymwysterau yn llwyddiannus fel rhan o'r fenter Sgiliau Hanfodol yng Ngogledd Iwerddon mewn digwyddiad ysblennydd a gynhaliwyd yn Adeiladau'r Llywodraeth yn Stormont.

Mae Sgiliau Hanfodol yn rhan o raglen ddysgu at y diben y mae SummitSkills yn ei chynnal mewn partneriaeth â Unite the Union a'r Ymddiriedolaeth Hyfforddiant Trydanol yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r prosiect yn anelu at annog mwy o gyflogeion peirianneg gwasanaethau adeiladau i ymgymryd â hyfforddiant sgiliau llythrennedd a rhifedd. Mae ymagwedd hyblyg y fenter dysgu yn y gweithle hon yn golygu bod cyflogwyr yn mwyafu perfformiad staff gyda chyn lleied o amharu â phosib ar weithgareddau busnes dydd i ddydd.

Safon Ansawdd Hyfforddiant

Pan nododd Cytundeb Sgiliau Sector SummitSkills bryderon gan gyflogeion y sector am ymatebolrwydd ac ansawdd darpariaeth hyfforddiant, ymgymerwyd ag ymchwil gofalus a nodwyd y Safon Ansawdd Hyfforddiant (SAH) fel y nod ansawdd hyfforddiant a argymhellwyd ar gyfer peirianneg gwasanaethau adeiladau.

Yn enwedig yn ystod cyfnodau sy'n heriol yn economaidd, rhaid i fuddsoddi mewn hyfforddiant gynnig y canlyniad gorau posib, felly mae rhagoriaeth ac effaith yn hollbwysig. Mae SAH yn fframwaith asesu a phroses ardystio i fudiadau sy'n darparu hyfforddiant a datrysiadau datblygu i gyflogwyr. Oherwydd bod ardystio i'r safon yn anodd ei gyflawni gydag ymgeiswyr yn ymgymryd â meini prawf asesu cadarn, creda SummitSkills y gall cyflogwyr sy'n mynnu ar SAH fod yn hyderus o'r hyfforddiant o'r ansawdd uchaf, gan ei wneud yn feincnod i'r holl ddarparwyr anelu ato.

Codi uchelgais

"Mae gwell gwybodaeth yn arwain at bobl gymwys a medrus, sydd yn ei dro yn hybu moral ac yn darparu llwybrau gyrfa strwythuredig."
Julie Rose, Rheolwr Cynnal Tîm a Datblygu, Fenhams, Newcastle upon Tyne

Lledu'r gair
Mae SummitSkills wedi lansio llyfryn newydd sbon i egluro yn union yr hyn yr ydym yn ei wneud, sut yr ydym yn ei wneud a hanfod ein gwaith.

Yn syml, rydym yn disgrifio'r partneriaid y mae SummitSkills yn gweithio gyda hwy, sut a pham yr ydym yn cynrychioli'r sector, ac yn amlinellu'r diwydiannau sy'n dod o fewn ôl-troed peirianneg gwasanaethau adeiladau. Mae'r llyfryn yn amlinellu ein gweledigaeth, ein cenhadaeth a'r cyngor y gall SummitSkills ei gynnig, oll mewn fformat hawdd ei ddilyn mewn maint A5 defnyddiol, neu gellir ei lawrlwytho o'n gwefan: www.summitskills.org/corporate

Cystadlaethau sgiliau
Dechreuodd digwyddiadau mewn steil yn 2009 gyda chyflwyno SkillPIPE, ychwanegiad newydd cyffrous i'r gyfres o gystadlaethau sgiliau a drefnir gan SummitSkills.

Wedi'i ddylunio'n benodol i hybu safonau a sgiliau ar draws y diwydiant gwresogi ac awyru, mae SkillPIPE yn profi sgiliau cystadleuwyr mewn gwaith pibellau gwresogi masnachol. Mae'n ymuno â'r tair cystadleuaeth sefydledig eraill a drefnir gan SummitSkills - SkillELECTRIC, SkillFRIDGE a SkillPLUMB - sy'n rhan o Skill M&E, sy'n ceisio dod o hyd i'r peirianwyr mecanyddol a pheirianneg gorau mewn peirianneg gwasanaethau adeiladau drwy gyfres o ddigwyddiadau proffil uchel ar draws y DU. Mae'r holl newyddion, canlyniadau a lluniau o gystadlaethau 2009 ar gael o'r wefan Skill M&E ddynodedig: www.skillMandE.org.uk

Gallai enillwyr rowndiau terfynol y DU hefyd gael y cyfle i gystadlu yn y digwyddiad WorldSkills rhyngwladol nesaf, yn cynnwys dros 900 o gystadleuwyr o fwy na 50 gwlad.

Aur WorldSkills
Enillodd pencampwr SkillELECTRIC 2008 Richard Sagar y wobr aur yn dilyn rownd derfynol ryngwladol WorldSkills 2009, cystadleuaeth sgiliau ryngwladol fwyaf y byd.

Bu Richard, sy'n gweithio i Eden Electrics Ltd ac a hyfforddwyd gan SECTT, yn cystadlu yn erbyn ymgeiswyr o'r radd flaenaf yn y digwyddiad Gosodiadau Electrodechnegol yn Calgary, Canada ym mis Medi. Derbyniodd enillydd SkillPLUMB 2008 Christopher Lonsdale Fedal Ragoriaeth, gan gynrychioli'r DU yn y gystadleuaeth Plymo a Gwresogi. Cafwyd perfformiad gwych gan y 26 aelod o dîm y DU gan ennill 26 aur, chwe efydd ac 14 Medal Ragoriaeth.

Gwobrau Hyfforddiant Cenedlaethol 2010
Ymgasglodd arweinwyr y diwydiant, cyflogwyr, darparwyr hyfforddiant a noddwyr yn y Llyfrgell Brydeinig ddydd Mercher 17 Mawrth i ddathlu unigolion talentog yn y sector peirianneg gwasanaethau adeiladau.

Mae gala'r Gwobrau Hyfforddiant Cenedlaethol yn unigryw yn y sector, gan ymestyn ar draws yr holl ddiwydiannau peirianneg gwasanaethau adeiladau, a dathlu cyflawniad uchel yn y categorïau gweithredol, technegol a rheoli.



Cyflwynodd Ian Livsey, cadeirydd SummitSkills ei wobr ddisgresiynol Mewn Cydnabyddiaeth o Ragoriaeth Amgylcheddol. Cyflwynwyd gwobrau disgresiynol hefyd i enillwyr medalau WorldSkills Richard Sagar a Christopher Lonsdale Mewn Cydnabyddiaeth o Berfformiad Eithriadol am eu cyflawniadau yn WorldSkills 2009.

EnterpriseEssentials

Enterprise Essentials
Lansiodd SummitSkills EnterpriseEssentials, offeryn ar-lein am ddim a gynhyrchwyd i wneud rheoli a gwella sgiliau menter yn syml ac yn hawdd.

Fe'i ddyluniwyd i helpu perchnogion busnesau bach roi cychwyn ar bethau, tyfu busnes presennol neu gynllunio datblygiad yn y dyfodol.

Mae EnterpriseEssentials yn seiliedig ar y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Menter, set o safonau a gydnabyddir yn genedlaethol o arfer da sy'n disgrifio'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i sefydlu busnes bach llwyddiannus.

Gwobr werdd am osodiadau
Mewn cynhadledd bwysig yn canolbwyntio ar y defnydd o ynni adnewyddadwy, roedd SummitSkills yn falch i noddi a chyflwyno gwobr yn cydnabod cyflawniad arloesol yn y defnydd o dechnoleg meicrogynhyrchu.

Wedi'i drefnu gan Bartneriaeth Meicrogynhyrchu Swydd Efrog a Humber a'i gefnogi gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, edrychodd y digwyddiad ar ba mor barod yw'r rhanbarth wrth i'r cynllun Arian yn ôl am Ynni Glân lansio yn Ebrill 2010. Bydd hwn yn gwobrwyo trigolion, busnesau, cymunedau a chyrff cyhoeddus gyda thariff arbennig am drydan a gynhyrchir o ffynonellau adnewyddadwy. Edrychodd raglen y dydd ar ffyrdd y gallai'r rhanbarth elwa o fuddsoddi mwy mewn meicrogynhyrchu, yn cynnwys swyddi a sgiliau newydd, ynni mwy glân ac allyriadau carbon is.

Yn ystod y cinio ysblennydd gyda'r hwyr a gynhaliwyd gan Paul Hudson o BBC Look North, cyflwynodd SummitSkills y wobr *Gosodiad Adeilad Cyhoeddus Gorau* i Awdurdod Parc Cenedlaethol Dyffrynnoedd Swydd Efrog am ei swyddfeydd yn Grassington.

Effeithiolrwydd ac esblygiad

"Rydym yn disgwyl safon gwaith uchel, ond yn gyfnewid rydym yn buddsoddi yn ein staff i sicrhau eu bod yn cael pob cyfle i gynyddu a gwella eu sgiliau."

Liz Heighway, Rheolwr Gweinyddu, EDP Consulting Engineers, Romsey.

Manyleb fframwaith graddau sylfaen
Fel rhan o'n cyfrifoldeb i sicrhau bod cymwysterau yn cwrdd ag anghenion datblygu peirianneg gwasanaethau adeiladau yn y dyfodol, mae SummitSkills wedi gweithio mewn ymgynghoriad â chyflogwyr, prifysgolion, colegau addysg bellach, cymdeithasau masnach a chyrff proffesiynol i ddatblygu manyleb fframwaith gradd Sylfaen.

Dyluniwyd hwn i arwain y rheiny sy'n ymwneud â datblygu neu adolygu graddau sylfaen i'n sector. Mae ar gael o'n gwefan yn www.summitskills.org/fds lle y gallwch weld y crynodeb, yr arweiniad cyflogwyr/cyflogeion neu lawrlwytho'r ddogfen lawn.

Grŵp Ymgynghorol Rhith
Mae Summitskills wedi gwahodd pobl â diddordeb mewn Addysg Uwch (AU) amgylchedd adeiledig i gymryd rhan mewn grŵp ymgynghorol rhith, fydd yn eu galluogi i gynnig eu barn ar ddatblygu a thrafod materion.

Rydym wedi cydweithio gyda chynghorau sgiliau sector eraill sy'n ymwneud â'r amgylchedd adeiledig i ffurfio'r Gynghrair Sgiliau Amgylchedd Adeiledig (BESA), sydd wedi nodi'r angen am strategaeth AU gyffredin.

Mae hyn wedi galluogi prifysgolion, cyflogwyr, cyrff proffesiynol a rhanddeiliaid eraill i archwilio rhai o'r materion y byddai'n rhaid i strategaeth gyffredin fynd i'r afael â hwy wrth gyflwyno cymwysterau sy'n ymwneud â'r amgylchedd adeiledig.

O ganlyniad, mae llawer ohonynt wedi ymuno â'r Grŵp Ymgynghori Rhith er mwyn iddynt allu cyfrannu at ddatblygu strategaeth. Mae gwybodaeth bellach a manylion cofrestru ar gael drwy ebostio besa@cic.org.uk

Mwy o gefnogaeth yn y dirwasgiad
Mae SummitSkills wedi sefydlu is-grŵp effaith arbennig i helpu cefnogi'r sector peirianneg gwasanaethau adeiladau yn ystod y dirwasgiad.

O ganlyniad i'r cyfarfodydd a gynhaliwyd hyd yma, rydym wedi:

- *Rhannu ein hymchwil ar y dirwasgiad gyda chyflogwyr a rhanddeiliaid allweddol ar draws y DU*
- *Datblygu cyngor gyrfaoedd y sector yn benodol i Loegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru*
- *Gweithio gyda darparwyr hyfforddiant i ganfod lleoliadau gyda chyflogwyr i alluogi prentisiaid a gollodd eu lleoliad gwblhau eu profiad gwaith a chynnal safonau cymhwysedd*
- *Darparu arweiniad ar golli gwaith prentisiaid posib a recriwtio newydd ddyfodiaid*
- *Rhoi cyngor i ddarparwyr hyfforddiant i helpu cefnogi cynnal darpariaeth i'r sector drwy'r dirywiad, yn ogystal â helpu i'w ail-alinio ar gyfer y gofynion twf y disgwylir y bydd yn deillio o'r dirwasgiad mewn technolegau amgylcheddol*
- *Cefnogi mentrau penodol i'r dirwasgiad ar gyfer ein sector, mewn perthynas â gweinyddiaethau datganoledig y DU, gan amlygu cyllid a chefnogaeth briodol*

SummitSkills yn cyrraedd safon aur
Rydym yn falch i gyhoeddi bod SummitSkills bellach wedi cyflawni statws Aur Buddsoddwyr mewn Pobl (BmP) – a chawsom ymweliad gan yr AS lleol Mark Lancaster i nodi'r achlysur.

Gan adeiladu ar yr ymdeimlad o falchder ers ennill ein dyfarniad BmP gwreiddiol yn 2007, rydym wedi ymdrechu'n barhaus i wella a chydnabod y gwerth yr ydym yn ei osod ar ein staff a'u cyfraniad at ein gweledigaeth ar gyfer y sector. Dyma pam rydym mor falch i fod wedi cyrraedd y safon uchaf.

Newidiadau i fwrdd SummitSkills

Penodwyd:
- John Miller
- Patrick Allen
- Richard Clarke
- George Thomson

Wedi camu i lawr:
- Stuart Lyon
- Diane Johnson
- John Fraser
- Tom Hardacre
- David Stephenson

Penodiadau staff newydd

- ***Jodie Cooke – Ymchwilydd***
  Yn gweithio'n agos â Dr. Mike Hammond yn SummitSkills ar amrywiaeth o brosiectau ymchwil lefel uchel.

- ***John Wilcock – Rheolwr Prosiectau Cynorthwyol***
  Mae John yn rhan o'r tîm datblygu ac yn cefnogi ein cystadlaethau Skill M&E a digwyddiadau.

- ***Tom Marwood – Cynorthwy-ydd Cronfa Ddata CRM***
  Yn defnyddio profiad helaeth mewn dosbarthu a systemau CRM yn ei rôl yn cynorthwyo â chronfa ddata newydd SummitSkills

- ***Claire Svenson – Swyddog Cefnogi Prosiectau Cymru / De Orllewin Lloegr***
  Yn gweithio gyda'r rheolwr gweithrediadau yng Nghymru i gynorthwyo gyda phrosiectau parhaus amrywiol.

Ymagwedd partneriaeth

"Rwy'n gweithio ar hyn o bryd gyda SummitSkills, tasglu prentisiaethau a'r bartneriaeth Addysg Busnes leol er mwyn i Hotchkiss allu bwydo i mewn i ddatblygu sgiliau ehangach."

Mel Hobbs, Cydlynydd Hyfforddiant, Hotchkiss Ltd, Eastbourne.

Academi sgiliau gwyrdd i Gymru
Mae Canolfan Sgiliau Gwyrdd cyntaf Nwy Prydain wedi agor yng nghymoedd De Cymru, yn cynnig hyfforddiant sgiliau arbenigol mewn technolegau ynni newydd. Bydd y ganolfan yn Nhredegar hefyd yn helpu pobl leol sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir ailhyfforddi yn y diwydiannau hyn.

Mae SummitSkills yn falch o fod wedi cyfrannu at y ganolfan ragoriaeth hon mewn hyfforddiant sgiliau, sydd wedi'i dylunio'n benodol i gwrdd ag anghenion y sector ynni gwyrdd sy'n tyfu'n gyflym.

Torri allyriadau'r Gogledd Orllewin
Mae SummitSkills yn gweithio gyda Chynghrair Ynni Domestig y Gogledd Orllewin (NWDEA) i helpu datblygu strategaeth ar gyfer y dyfodol i ynni domestig yng Ngogledd Orllewin Lloegr. Mae NWDEA yn dod â sefydliadau ynghyd sy'n cyfrannu at leihau allyriadau carbon domestig, yn ymladd tlodi tanwydd ac yn annog gosod technoleg meicrogynhychu ac ynni effeithlon.

Fel partner strategol allweddol sy'n gyfrifol am ymgynghori ar sgiliau a hyfforddiant ar gyfer datblygiadau carbon isel, mae SummitSkills wedi cydlynu adborth gan bum gweithdy rhanbarthol i integreiddio datblygiadau datblygu yn y dyfodol o fewn ein sector.

Rydym hefyd yn gweithio'n agos gydag Asiantaeth Datblygu Ranbarthol y Gogledd Orllewin ar y Prosiect Sgiliau Carbon Isel i sicrhau bod sgiliau a hyfforddiant ar gyfer y sector yn cael eu datblygu a'u hariannu yn ddigonol.

Yr Alban: Her yr Amgylchedd Adeiledig
Roedd y Corn Exchange yng Nghaeredin yn llawn cyffro wrth i rownd derfynol yr Her Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig, a noddwyd ar y cyd gan SummitSkills a ConstructionSkills, fynd rhagddo.

Roedd cannoedd o ddisgyblion o 29 o ysgolion uwchradd ar draws Caeredin a'r Lothians yn cystadlu mewn cyfres o ragrasys caled ym mis Tachwedd a Rhagfyr i ddewis y 10 tîm gorau ar gyfer rownd derfynol mis Ionawr.

Roedd y safonau yn uchel a'r beirniadu yn agos cyn cyhoeddi Ysgol Merchiston Castle yn enillydd cyffredinol. Derbyniodd yr Her gynnig arbennig o gefnogaeth yn Senedd yr Alban gan David McLethcie, ASA ar gyfer Caeredin Pentlands.

Gwobr Partner y Flwyddyn
Mae SummitSkills wedi ennill gwobr Partner y Flwyddyn Skills UK 2009 mewn cydnabyddiaeth o'i berfformiad eithriadol wrth drefnu a chyflwyno'r cystadlaethau Skills M&E y llynedd.

Mae'r gwobrau, a gyflwynwyd yn 2008 gan UK Skills, wedi'u creu i arddangos a dathlu perfformiad eithriadol gan bartner wrth gyflwyno cystadlaethau sgiliau. Cyflwynwyd y wobr eleni i bennaeth cystadlaethau SummitSkills Neil Collishaw gan y cogydd enwog James Martin a phrif weithredwr UK Skills Simon Bartley.

Gogledd Iwerddon – yn cynyddu hyfforddiant gwyrdd
Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth gydag Enery & Utility Skills, ConstructionSkills ac Action Renewables yng Ngogledd Iwerddon i adolygu'r cyrsiau hyfforddiant presennol i weithredwyr technolegau amgylcheddol, mewn prosiect a gefnogir gan adran datblygu'r sector yr Adran Cyflogaeth a Dysgu (DEL).

Yn seiliedig ar adborth gan gyflogwyr, ymgysylltodd SummitSkills â darlithwyr mewn addysg bellach ar brosiect i adolygu cynnwys cyrsiau presennol ar gyfer technolegau solar, dŵr, pympiau gwres a biomas, gyda'r nod o gwblhau'r drafft terfynol ar ddiwedd Mehefin 2009.

Fodd bynnag, er mwyn ehangu'r datblygiad o gyrsiau hyfforddiant ar gyfer technoleg amgylcheddol er mwyn iddynt gynnwys y sgiliau arbenigol sydd eu hangen ar benseiri, manylebwyr a pheirianwyr, rydym wedi derbyn swm ychwanegol o £42,000 gan DEL ac yn bwriadu cwblhau'r gwaith hwn erbyn Mehefin 2010.

Fframwaith Rheoli, Goruchwylio ac Arweinyddiaeth (MSL) i'r Alban
Mae SummitSkills yn yr Alban wedi datblygu fframwaith Rheoli, Goruchwylio ac Arweinyddiaeth (MSL) 3 cham ar gyfer y sector Peirianneg Gwasanaethau Adeiladau (BSE). Mae wedi'i anelu at y rheiny sy'n gweithio fel, neu'n dymuno bod yn rheolwyr, rheolwyr canol, perchnogion-rheolwyr a/neu oruchwylwyr o fewn y diwydiannau Trydanol, Plymo, Gwresogi, Awyru, Tymheru a Rheweiddiad. Mae egwyddorion arweiniol ymagwedd SummitSkills yn cynnwys ymarferoldeb, defnydd a gwerth am arian (lle mae darpariaeth am ddim neu wedi'i hariannu'n rhannol lle bynnag y bo'n bosib).

Mae Cam 1 *yn cynnwys 45 o becynnau dysgu am ddim, y ceir mynediad iddynt drwy ddolenni gwe, yn cwmpasu Rheoli & Pherfformiad; Cyllid, Polisïau'r Gweithle; Marchnata a Gwerthu; Cyfweliadau a Recriwtio; Hyfforddiant, Addysgu a Mentora.*

Mae Cam 2 *yn cynnwys darpariaeth a ddewiswyd yn benodol o'r Sefydliad Dysgu a Rheoli (ILM). Mae'r ymagwedd hon yn adeiladu ar yr Ymarfer Peilot llwyddiannus yn gynnar yn 2010 lle cyflawnodd 15 o ymgeiswyr (pob un yn rheolwyr, goruchwylwyr a/neu berchnogion busnes BSE) gymhwyster ILM Lefel 2 (SCQF lefel 5) mewn Arwain Tîm. Nodwyd yr ymgeiswyr drwy bartneriaeth â'r Cymdeithasau Masnach a'r darparwyr hyfforddiant sectoraidd yn cynnwys SELECT a SECTT (y ddau yn Electrodechnegol), SNIPEF (Plymo), HVCA a BEST (y ddau yn Wresogi, Awyru, Tymheru a Rheweiddiad).*

Mae Cam 3 *yn adeiladu ar y ddarpariaeth ILM yng ngham 2 ac yn cynrychioli 'cam i fyny' yn nhermau lefel uwch o ymrwymiad gan ymgeiswyr.*

Am fwy o wybodaeth ar unrhyw rai o'r prosiectau yn yr adolygiad hwn ffoniwch ni ar 01908 303960 neu ewch i www.summitskills.org.uk